


Y R E G L W Y S
Y N G N G H Y M R U



T H E C H U R C H
I N W A L E S

FFURFLEN GAIS COFRESTR YR ETHOLWYR

Yr **wyf i**, Mr / Mrs / Miss / Ms (enwau bedydd yn llawn a chyfenw)

.....

(Cyfeiriad post yn llawn)

.....

.....

.....

.....

Rhif Ffôn*

Cyfeiriad e-bost*

drwy hyn yn gofyn am gael cofnodi fy enw ar Gofrestr Etholwyr y Plwyf

.....

yn esgobaeth

ac yr wyf yn cytuno i dderbyn ac ufuddhau i Gyfansoddiad yr Eglwys yng Nghymru. Yr wyf yn datgan fy mod yn gymwys yn ôl darpariaethau adran 4(2) Pennod IVC y Cyfansoddiad. Yr wyf yn deall bod y Rhôl Etholwyr ar gael i'w archwilio gan unrhyw Aelod o'r Eglwys yng Nghymru.

Dyddiad Llofnod.....

**Mae'r wybodaeth hon yn ddewisol, ond os yw'n cael ei chwblhau gellir ei defnyddio i gysylltu â chi er mwyn eich hysbysu am unrhyw Gwrdd Festri neu i egluro unrhyw wybodaeth a nodwyd uchod.*

----- I'w dychwelyd os gwelwch yn dda -----

PAM MAE ANGEN I MI FOD AR GOFRESTR YR ETHOLWYR?

(Gwybodaeth ar gyfer Aelodau'r Eglwys Anglicanaidd ac aelodau eglwysi eraill)

Beth yw Cofrestr yr Etholwyr?

Mae'n rhestr o enwau lleygwyr y plwyf, sy'n 16 oed a hŷn, ac sy'n bodloni'r amodau isod.

Pam mae angen i fy enw fod arno?

Gan mai dim ond y rhai y mae eu henwau ar Gofrestr yr Etholwyr sy'n gallu:

- † sefyll mewn etholiad ar gyfer, a phleidleisio dros, y Cyngor Plwyf Eglwysig;
- † bod yn gymwys i fod yn Warden Eglwys a phleidleisio dros Warden y Bobl;
- † pleidleisio dros gynrychiolwyr Cynhadledd Deoniaeth yr Ardal a Chynhadledd yr Esgobaeth.

Beth yw'r Amodau?

"Fy mod yn gymwys yn ôl darpariaethau Adran 4(2) Pennod IVC Cyfrol I Cyfansoddiad yr Eglwys yng Nghymru." Mae hyn yn golygu:

- (2) Bod gan unrhyw leygwr dros 16 oed yr hawl i gael ei enw ef neu hi ar y Gofrestr os yw ef neu hi:
- (a) (i) yn Gymunwr; a
 - (ii) heb fod yn aelod o unrhyw gorff crefyddol nad yw mewn cymundeb â'r Eglwys yng Nghymru, oni bai iddo gael caniatâd ysgrifenedig Esgob yr Esgobaeth yn ei ryddhau o'r gofyniad hwn;
 - (b) os yw'n preswyllo yn y plwyf, neu, os nad yw'n preswyllo yn y plwyf, ei fod wedi mynychu addoliad cyhoeddus yn gyson yn y plwyf am gyfnod o chwe mis cyn cofrestru;
 - (c) os ydyw wedi arwyddo ffurflen gais am gael ei gofrestru; a
 - (d) os nad yw ei enw wedi'i gynnwys ar Gofrestr unrhyw blwyf arall yng Nghymru, oni bai iddo gael caniatâd Cyngorau Plwyf y ddau blwyf;

Beth yw'r broses?

Mae angen i chi lenwi, llofnodi a nodi'r dyddiad ar y ffurflen drosodd a'i dychwelyd at y Periglor neu Ysgrifennydd y Cyngor Plwyf Eglwysig.

Beth nesaf?

Bydd rhestr o'r enwau sydd ar Gofrestr yr Etholwyr yn cael ffurfio'r rhestr, sydd ar gael i'w harchwilio cyn y Cwrdd Festri bob blwyddyn. Felly gallwch wirio bod eich enw wedi'i gynnwys a bod eich manylion yn gywir.

Os ydych am i'ch enw gael ei ddileu ar unrhyw adeg, yr oll sydd raid i chi ei wneud yw anfon cais ysgrifenedig i'r Periglor neu Ysgrifennydd y Cyngor Plwyf Eglwysig iddo gael ei ddileu. Bob pum mlynedd, mae cofrestr newydd yn cael ei pharatoi, sy'n golygu bydd angen i chi ailgyflwyno cais

Dalier Sylw: Diogelu Data

Bydd y wybodaeth ar y ffurflen hon yn cael ei chadw ar gofrestr etholwyr y plwyf yn unol â Phennod IVC Cyfansoddiad yr Eglwys yng Nghymru a Hysbysiad Preifatrwydd Cofrestr Etholwyr y Plwyf.